O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 2484 (Cy. 269)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 33, Capel Llanilltern, Caerdydd, Y Ffordd Ymuno tua'r Gorllewin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *18 Hydref 2011*

Yn dod i rym *31 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 33, Capel Llanilltern, Caerdydd, Y Ffordd Ymuno tua'r Gorllewin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 31 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw'r darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 33, Capel Llanilltern, yn Ninas a Sir Caerdydd.